CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD HYDREF 20, 2026

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Hydref 20, 2026 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Gerallt Griffith, Llion Williams, Emlyn Roberts, Wyn Rowlands, Karen Goswell. Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd. Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

Yn absenoldeb Robin Jones (Cadeirydd) cadeirwyd y cyfarfod gan Llion Williams.

Ar ddechrau'r cyfarfod penderfynwyd anfon cerdyn:

cydymdeimlad i Mrs Bethan Antur wedi marwolaeth ei gŵr Huw Antur.

llongyfarchiadau i Mr Elfyn Evans a'i gyd-yrrwr Mr Scott Martin yn Bencampwyr Rali'r Byd 2026.

2. Ymddiheuriadau: Peredur Jenkins, Robin Jones, Rhun Prys Jones, Meurig Ashton. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 15, 2026

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 15, 2026

Eitem 8.c. Llythyr (22/9/2026) oddi wrth ein twrnai, Breese Gwyndaf, yn amgau dogfen 'Legal Charge' sydd angen ei arwyddo. Mae'n gofyn pwy sy'n arferol yn llofnodi gweithredoedd ar ran y Cyngor Cymuned; ai'r Cadeirydd? Hefyd mae'n gofyn am wybodaeth ymwneud â threuliau a chyflwr yr adeilad – derbyniwyd y wybodaeth gan Gerallt.

Anfonwyd llythyr (24/9/2026) i'r aelodau yn gofyn am un ohonynt ddefnyddio ei smartphone i'r twrnai anfon gwybodaeth i ddechrau'r broses o 'verification' h.y. dogfennau ID. Mae hyn oherwydd nid oes gan y Clerc smartphone. Cytunodd Robin i ddefnyddio ei smartphone.

Anfonwyd llythyr (25/9/2026) i Breese Gwyndaf yn rhoi y wybodaeth roedd ei angen.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (23/9/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith amnewid camfa ddiffygiol a thorri 250m o lystyfiant ar Lwybr 39, Ystumgwadnaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (25/9/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal trwy Zoom ar 13/10/2026 am 7.00y.h. Amgáu mae Agenda, Cofnodion 15/7/2026 a newyddion Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (16/10/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys cofnodion pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd ar 13/10/2026 a dogfen Tim Llesiant, Cyngor Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (19/10/2026) oddi wrth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhoi gwybod maent yn cynnal ymgynghoriad ar Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2027-2028 i gael gwybod ein barn ar eu risgiau mwyaf priodol yn eu cynlluniau. Amgáu mae linc i holiadur sydd angen ei gwblhau. Mae'r ymgynghoriad rhwng 19/10/2026 a 13/12/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (19/10/2026) oddi wrth Fofestry Manager Wales yn rhoi gwybod maent yn cynnal ymgynghoriad ar eu woodland management plan yn Gwanas Fawr. Maent angen sylwadau ar y cynllun cyn 19/11/2026. Mae'r llythyr yn cynnwys linc i gael gwybodaeth ar yr ymgynghoriad. Maent angen sylwadau cyn 19/11/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

8. Materion Ariannol

a Llythyr (25/9/2026) oddi wrth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gydag Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol. O'r adroddiad mae taliad £156 yn orfodol i bob aelod Cyngor Cymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Derbyniwyd (16/10/2026) Mantolen 2025-2026 oddi wrth Neuadd Rhydygorlan

c. Balans yn y banc ar 29/9/2026: £12,518.13.

9. Archwilio

a. Anfonwyd llythyr (21/9/2026) i Archwilio Cymru yn rhoi gwybod iddynt nid ydym wedi cael adroddiad ganddynt.

10. Materion yr Aelodau

a. Dymuna'r Clerc cofnodi ei ddiolch i'r diweddar Huw Antur am ei gymorth i gwblhau ffurflen cais am grant oedd ar gael gan Gronfa Gwynedd Ni. Roedd y grant am hysbysfyrddau a meinciau yn y flwyddyn 2025–2026.

b. Dau gwyn gan Emlyn:

i. Gweledigaeth, i gyfeiriad Dolgellau wrth ymuno a'r A494, yn ddrwg iawn. Mae hon yn hen gŵyn, a dim llawer yn cael ei wneud amdani. Oes raid disgwyl am ddamwain cyn i'r sefyllfa gael sylw?

ii. Canghennau isel ar ffordd rhwng mynedfa A494 ger Carleg a Garreg Fawr, ger Bryn Blew Llanfachreth. Canghennau isel yn taro a difrodi unrhyw beiriant sydd yn fwy na char. Wedi codi'r pwynt llynnedd ond dim byd wedi'i wneud amdan y peth, ac mae'r canghennau'n waeth leni. Hyderaf y gall y rhain gael sylw heno 'ma.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Delyth i gael gwybod os mae hi am ddelio gyda materion hyn yn enwedig eitem ii. Gweler Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 21, Eitem 11.a.

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Y rheswm ni fydd Delyth yn y cyfarfod mae hi'n cynrychioli Cyngor Gwynedd yng ngwasanaeth coffa 60 mlynedd trychineb Aberfan.

Llofnod: Dyddiad: